SKSG6

Rigio dolis camera a llwyfannau tracio

Trosolwg

Mae'r Safon hwn yn ymwneud â rigio dolis camera neu lwyfannau tracio (nid craeniau). Mae hyn yn cynnwys deall y llwythi pwysau ac unrhyw wrthbwysau arbennig sydd ar waith. Mae'n ymwneud â darparu a chynnal a chadw unrhyw gyflenwadau ynni angenrheidiol a sicrhau eich bod chi'n deall y gofynion cynnal a chadw.

Mae'r Safon hwn ar gyfer unrhyw un sy'n ymwneud â rigio dolis camera neu lwyfannau tracio.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1 Gwirio fod yr arwyneb neu'r trac sy'n cynnal y pwysau'n addas ar gyfer y doli camera neu'r llwyfan tracio

2 Gwirio fod llwythi pwysau offer a gweithredwyr o fewn i lwythi gweithio diogel y gwneuthurwr

3 Gwirio fod hydroleg, pwyseddau ac unrhyw declynnau diogelwch pwysau a ymgorfforir, yn unol â manyleb y gwneuthurwr

4 Sicrhau fod trefn y gwaith adeiladu'n ddiogel ac na fydd yn peryglu eraill nac yn niweidio offer

5 Gwirio fod pob dyfais gloi'n weithredol, yn ei lle ac yn gweithio'n unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr

6 Cyfarwyddo pobl berthnasol ar y modd o ddefnyddio unrhyw swyddogaethau cloi a diogelu arbenigol

7 Adrodd am ddiffygion mewn offer yn unol â gweithdrefnau cynhyrchu

8 Sicrhau offer yn ystod rigio neu storio er mwyn atal unrhyw ddigwyddiadau a allai ei niweidio neu'i wneud yn anniogel

9 Defnyddio gwybodaeth ddibynadwy i adnabod unrhyw ofynion trin neu gynnal a chadw arbenigol yn ystod y cyfnod defnyddio

10 Darparu gwarchodaeth amgylcheddol ddiogel a saff ar gyfer offer a gweithredwyr, yn unol â rheoliadau, canllawiau ac arfer orau cyfredol y diwydiant.

11 Sicrhau fod yr holl adeiladwaith yn ddiogel ar gyfer y pwrpas y bwriadwyd ef ar ei gyfer, a'i fod yn rhydd o unrhyw rwystrau

12 Sicrhau fod ceblau'n ddigon hir ac na ellir eu niweidio

13 Ceisio cymorth arbenigol gan bobl berthnasol pan fydd angen offer trydanol

14 Rigio trolis camera a llwyfannau tracio yn unol â gweithdrefnau trin â llaw.

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1 Deddfwriaeth, canllawiau ac arfer orau cyfredol y diwydiant

2 Sut i adnabod pwysau'r ddyfais dracio

3 Sut i gyfrifo pwysau'r holl offer sydd i gael ei fowntio

4 Sut i gael manylion pwysau pob personél a fydd yn cael eu cludo ar yr offer

5 Sut i werthuso addasrwydd arwynebeddau neu drac sy'n cynnal pwysau

6 Ble i ddod o hyd i wybodaeth am fanylebau pwysau'r gwneuthurwr

7 Llwythi gweithio diogel yr offer a'u pwrpas

8 Oblygiadau unrhyw nwyon neu hydroleg a gynhwysir yn yr offer a sut i'w monitro

9 Terfynau eich arbenigedd a ble mae'n addas i alw ar arbenigwyr eraill

10 Manteision gweithio mewn tîm a sut i gyfathrebu ag eraill

11 Y drefn y dylid adeiladu offer ynddi

12 Sut i wirio dyfeisiadau cloi i atal symud heb ganiatâd

13 Sut i sicrhau offer pan fo'n cael ei rigio neu storio

14 Achosion posib o niwed i offer a sut i'w hosgoi

15 Y gweithdrefnau cynnal a chadw parhaus sydd eu hangen

16 Sut i adnabod namau a'r weithdrefn adrodd nôl gywir

17 Gweithdrefnau trin â llaw berthnasol gan gynnwys Offer Gwarchod Personol (PPE) gofynnol

18 Y gwarchod amgylcheddol angenrheidiol

19 Sut i sicrhau'r rig pan fydd wedi cael ei adael heb ei oruchwylio neu mewn amodau tywydd anffafriol

20 Pam ei bod hi'n bwysig cadw offer yn sych ac yn rhydd o lwch, tywod a malurion eraill

21 Pryd a ble i geisio cyngor arbenigol.

SKSG6

Rigio dolis camera a llwyfannau tracio

Datblygwyd gan	Creative Skillset
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2018
Indicative Review Date	Mawrth 2022
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Screen Skills (gynt Creative Skillset)
RCU gwreiddiol	SKSG6
Galwedigaethau perthnasol	Gweithredwr Craen (Ffilm a theledu); Technegydd Craen (Ffilm a theledu); Grip dan hyfforddiant; Grip
Cyfres/Set	Grips a thechnegwyr craeniau
Geiriau Allweddol	Grip, Doliau camera, Llwyfan tracio, Iechyd a diogelwch